

# Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 7fed Mis Chwefror 2024

## Presennol

Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, B Jones, I Edwards, S Evans, P Jones, G Davies, E Lewis a G Mitchell (Powys)

## Ymddiheuriadau - R Ashton

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

## Cyflwyniadau –

## Datganiadau diddordeb –

## Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 3ydd Ionawr 2024

Pawb yn gytun

## Materion yn codi

1. Parcio ceir ym mhentref Llan - S Reast wedi cwrdd a Tony Evans ar y safle ac yn disgwyl amncangyfrif – dim diweddariad
2. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - Mae gwaith torri'r coed wedi ei cwblhau. Arhoswyd am fwy am tenders i torri'r gwair ac i neud y llinellau gwyn. Mae R Ashton wedi archebu'r coed fawydd ac mae S Reast wedi trefnu diwrnod i plannu'r siety. S Reast i ysgrifennu ar David Thompson (Powys) i ofyn am 'Right of Access' gan copio G Mitchell i fewn
3. Cyfleusterau cyhoeddus - Derbynydd dyfnbris gan Adam Toye ar gyfer y gwaith sydd angen ei wneud. Mae Adam wedi rhoi cost ac amserlen i gwahanol darnau o'r prosiect. Cyтынwyd i gofyn iddo cychwyn ar nenfwd toiled y dynion cyn gynted a phosib. S Reast, Mark Shelley, Adam Toye ac I Edwards i cwrdd ar y safle i drafod y camau nesaf yn cynnwys yr angen i insiwleiddio'r pibellau. Yn y cyfamser mae'r toiled anabl ar agor ac ar gael i'r cyhoedd
4. Hysbysfyrdd - Mae hysbysfwrdd newydd Bont yn cyrraedd ar y 22fed o Chwefror. F Cauley i cydlynu'r gwaith i'w osod yn ei le
5. Offer difibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Gofynwyd i'r cynghorwyr cymryd cyfrifoldeb dros cadw llygaid ar yr offer sydd yn agos iddynt. Dangoswyd I Edwards y manylion perthnasol gyda difibrilwr y ganolfan ar diwedd y cyfarfod
6. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Mae'r cais loteri wedi bod yn llwyddianus, bydd £20,000.00 yn dod i'r Cyngor am yr offer newydd. S Reast i cydlunu'r gwaith gyda Wicksteed. Cafwyd dyfnbris gan AlTechnical ar gyfer CCTV ond roedd yn rhy ddrud i'w dderbyn ar hyn o bryd
7. Sietyn wrth Pont Bel – Mae S Reast wedi clywed gan perchnogion Ty'n Ddol ac yn gwneud ymholiadau ynglyn a contractwyr i gwneud y gwaith. Cynnigwyd help gan G Davies, S Reast i danfon manylion cyswllt ymlaen
8. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad
9. Station House, Talerddig – Bydd yna cyfarfod ar y 21ain o Chwefror. Mae S Evans, P Jones ac F Cauley am fynychu ac efallai hefyd, G Davies ac E Davies. Bydd rhaid cyflwyno cwestiynnau i Gwasanaethau'r Plant ymlaen llaw

10. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – S Reast wedi ysgrifennu at Powys ac wedi derbyn ymateb yn dweud fod y mater o dan ystyriaeth – dim diweddariad felly S Reast i holi eto
11. Lloches Bws Dolfach – Cafwyd cyfarfod ar y safle gyda'r contractwyr ac E Lewis ar y 17fed o Ionawr. Mae S Reast wedi ceisio gofyn i Open Reach symud ei polyn sydd ynghanol y palmant ac yn ymharu ar lleoliad y lloches. Mae Open Reach yn gofyn am £1200 i gwneud arolwg o'r safle ac wedyn o ddeutu £10,000.00 i symud y polyn
12. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – Gwaith ar y gweill gan Josh Reast – Dim diweddariad
13. Bainc yn Dolfach – S Reast i cysylltu a Powys eto am caniatad i osod y banc. Tony Evans wedi rhoi dyfnbris o £250 - £300 am gwneud y gwaith – dim diweddariad
14. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Rhaid aros am tywydd sych i symud y sied – dim diweddariad
15. Ymateb i'r rali – Pawb yn hapus gyda'r llythyr ac anfonwyd gan ysgrifenyddes y rali i'r trigolion lleol
16. Llwybr o Dolfach i Llanbryn-mair ac i troiad Tafolwern – Cyтынwyd i drafod hyn pan ddaw Russel George AS i cwrdd a'r Cyngor
17. Sbwriel yn y Parc – Dydy S Reast ddim wedi cael ymateb gan y 'Probation Services'. Yn y cyfamser gorfodwyd Josh Reast clirio coeden oedd wedi cwmpo yn ystod y gwynt mawr ac fe gliriodd y sbwriel yn ystod y gwaith hwnw
18. Arwyddion cyflymder wrth croesfan Bont Dolgadfan – Mae'r arwyddion anghywir wedi cael eu tyni i ffwrdd
19. Ffens o amgylch y Pump House yn Bont – S Reast wedi ysgrifennu at Dwr Cymru ac wedi cael cadarnhad fod y mater ar ei amserlen o waith
20. 'Data projector' – Gofynwyd S Reast os hoffai'r Cyngor gwneud defnydd o'r offer sydd ar gael yn yr ysgol/ganolfan er mwyn arbed printio gymaint o waith papur. Cyтынwyd i'w drïo
21. Trailer Kieron-Owen ar ffordd Brynaire – S Reast wedi ysgrifennu at Kieron-Owen ac wedi derbyn ymddiheuriad ganddynt
22. To ar adeilad 'BT Exchange' – Roedd panel ar y to wedi dod yn rhydd yn ystod gwynt mawr. Adroddwyd y problem i Open Reach a daethant i'w ddatrus
23. Problemau gyda'r Ganolfan Iechyd – S Reast i ysgrifennu atynt i cwyno am y problemau cyfathrebu gyda pobol mewn oed ac am prescripsiannau hwyr a'r anhawsterau cael apwyntiadau

## **Materion ffyrdd**

- Gridiau gwartheg rhwng Talerddig a Cwmcâlch - wedi llenwi gyda mwd
- Peipen o dan y ffordd wrth Ystrad-fawr – G Mithcel i edrych ar y mater
- Materion ar yr A470 – S Reast i wahodd Russel George AS i drafod y canlynol: 1. Ffordd yn disgyn wrth Dolgoch a'r effaith o cau hwnw ar y ffordd o Talerddig i Bont tra fydd gwaith ar y gweill. 2. Cyflymder traffig ar gornel Wynnstay. 3. Cyflymder traffig yn Nhalerddig. 4. Llwybr o Dolfach i Llanbryn-mair ac ymlaen i Tafolwern
- Fuodd E Davies a G Mitchell ar daith i trafod y materion ffyrdd canlyonl: 1. Cerrig gwyn a pyst ar ymyl ffordd Pandy, 2. Ffordd yn disgyn islaw Lluest. 3. Draen wrth yr Hen Gapel. 4. Cyflwr y ffordd pen draw Pandy/Tafolog. 5. Gwreiddau ar ochr y ffodd wrth Penfilltir, Bont a 6. Cyflwr ffordd Cwmcarnedd. Ers hynny, mae G Mitchell wedi

hefyd cwrdd a Aled Jones o Powys i ddangos y materion iddo fo. Mae'r draen wrth yr Hen Gapel yn flaenoriaeth.

- Ffordd yn disgyn wrth Craig yr Henffordd – Dim diweddariad

## Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

### Gohebiaeth

- Park Ynni Esgair Galed – Cyflwynwyd map o'r datblygiad sydd o dan trafodaeth. Fydd yna cyfarfodydd ymgynghoriad yn Llanbryn-mair ar y 19eg Chwefror (2.30yp - 7.00yh), Aberhosan ar y 26ain Chwefror (2.30yp - 7.00yh) a Penffordd-las ar y 27ain (2.30yp - 7.00yh)
- Rhaglen Mwyngloddiau Metel gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyflwynwyd manylion y prosiect sydd ar y gweill yn Nylife
- Diolch gan Cronfa i Bawb yr Urdd am cyfraniad
- Llythyr gan Eleri Humphreys yn cyhoeddi'r swm a gasglwyd yn lleol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024 sef £15306.50 ac mae £175.00 wedi mynd tuag at tlws ar gyfer cystadleuaeth Cor SATB Bl.13 ac iau.

### Cynllunio

- 24/0062/FUL | Erection and operation of a temporary meteorological mast for an approximate 36-month period | Land 3800 Metres West Of Staylitttle Staylitttle Llanbryn-mair Powys - Yn cefnogi: E Lewis, B Jones, G Davies, P Jones, I Edwards ac E Davies. Yn erbyn: D Jones. Yn ymatal: S Evans a F Cauley
- 23/1912/FUL | Construction of a 34 kilowatt micro-hydro scheme involving construction of a new intake weir across the watercourse, a building to house the turbine and generator (power house) including pipes and cables, cable girder bridges and all other associated works | Land At Ty Mawr Mallwyd Machynlleth Powys SY20 9HS – Pawb yn cefnogi

### Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 29/01/24

Cyfrif Cyfredol	£4246.51
Cyfrif Cadw	£2,912.99
Cyfanswm	£7159.50
Sieciau heb eu cyflwyno	£100.00
Balans ar gael	£7059.50

### Ceisiadau a thaliadau ariannol

Dyddiad cytunwyd	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
07/02/24	Cyflog y Clerc	£368.00	Cytynwyd
07/02/24	Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Gorffennaf)	£92.00	Cytynwyd
07/02/24	Un Llais Cymru – Costau hyfforddiant	£40.00	Anfoneb hanesyddol Cytynwyd

07/02/24	E.ON Next	£16.85	Cyтынwyd
07/02/24	Arfon Hughes - Gwasanaethau cyfieithu	£100.00	Cyтынwyd
07/02/24	Blewyn Glass - hysbyseb	£10.00	Cyтынwyd
07/02/24	Appel Marie Curie	£100.00	Cyтынwyd
07/02/24	Josh Reast – torri a clirio coeden yn y cae chwarae	£30.00	Cyтынwyd
07/02/24	Archwilio Cymru – Awdit 2015/16	£1858.25	Angen mwy o trafodaeth

### **Unrhyw fater arall**

#### **Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- F Cauley – Dwr yn llifo wrth Pont Grin
- F Cauley – Baw cwn
- F Cauley – Ailgylchu sbwriel i fusnesau
- P Jones – Ail-werthuso treth y Cyngor
- B Jones – Dwr ar ffordd Pandy
- I Edwards – Openreach yn torri coed a gadael brigau
- I Edwards – Diffyg gohebiaeth i cais cynllunio Hafodwen
- D Jones – Llwybr heibio'r Ysgoldy yn Nhalerddig angen giat

#### **Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 6ed Mawrth 2024**

#### **Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 3ydd Ebrill 2024**

Sarah Reast

Clerc i Gyngor Cymuned Llanbryn-mair